COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 5ed TACHWEDD 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Gruff Jones, Jackie Bird, Nick Smith, Dave Ritchie, Rhian Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Ken Tams a Bob Barton.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Dim datganiad wedi ei dderbyn.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr Aelodau gofnodion cyfarfod 1af Hydref 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Cais cymorth grant tŷ gwydr Ysgol Llanbedr - Mae Mr Ivor Richards wedi dod o hyd i'r swm llawn, sef £1,200.00, felly nid oes angen cymorth grant gan y Cyngor Cymuned. Cytunodd yr Aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Ysgol Llanbedr yn gofyn am gael y siec £600.00 yn ôl.

5. DIWEDDARIAD YNGLŶN EGLWYS HYNAFOL SAN PEDR.
Amlinellodd Mr Guy Alford (oedd yn bresennol) hanes y "Grŵp Gwirfoddoli". Eglurodd eu bod yn cael anhawster cael digon o wirfoddolwyr i gadw'r fynwent yn daclus. Roedd ganddo 4 dyfynbris ar gyfer torri'r gwair a thacluso'r fynwent, a gofynnodd am £150.00 tuag at dalu contractwr. Bydd cyfarfod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig ar ddydd Mawrth, 6 Tachwedd, ac mae'n gobeithio derbyn cyfraniad at gostau'r contractwr ganddynt hwythau. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyflwyniad manwl a'i holl waith yn gofalu am y fynwent ar ran y Gymuned. Yn ogystal, diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i Guy Alford, David Ritchie, Gwyn Williams ac Andrew Nahed am wirfoddoli i dorri'r gwair a thacluso'r fynwent yn ystod 2018.

6. DIWEDDARIAD AM Y GANOLFAN GYMUNEDOL.
Ynglŷn â mater y cyfranddaliadau, amlinellodd y Cyng. Tim Baker nifer o ddigwyddiadau a chyhoeddusrwydd fydd yn digwydd/ymddangos dros y mis nesaf, tan y dyddiad cau sef 2 Rhagfyr 2018.

7. 'EASY FUNDRAISING'.
Mae'r Cynghorwyr Dave Ritchie a Rhian Jones am gysylltu gydag Ysgol Llanbedr parthed agor cyfrif 'Easy Fundraising' i godi arian ar gyfer yr Ysgol.

8. ACHLYSUR Y GOLEUADAU NADOLIG AR 30 TACHWEDD 2018.
Mae'r holl drefniadau ar waith, ac eithrio:-
A: Bydd y daflen ddigwyddiad yn symlach eleni, a gobeithir y bydd yn rhatach i'w phrintio.
B. Bydd y daflen gyhoeddusrwydd yn cael ei chynnwys yng nghyflwyniad nesaf y Ganolfan Gymunedol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Tachwedd 2018.

9. MATERION ARIANNOL.

A. Cyfrifon banc:-

1. Cyfrif Cyfredol gyda'r Nat West £12,885.69.

2. Cyfrif Cadw gyda'r Nat West £9,333.25.

B. Taliad bil awdurdodedig i Brenda Jones am gyfieithu cofnodion blaenorol y Cyngor - £40.00.

C. Diolchodd Pwyllgor Apêl Leol Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 i'r Cyngor am y cymorth grant o £807.00.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais Cynllunio: 16/2018/0973 – Codi llinell wasanaeth uwchben 11kv ar bolion pren yn Ruthin Lodges Bwlch Penbarras, Llanbedr Dyffryn Clwyd – Dim gwrthwynebiad ar ran yr Aelodau.

B. Cais Cynllunio: 16/2018/0799 - Datblygu .01ha o dir wrth y 2 annedd fforddiadwy (cais amlinellol gan gynnwys mynediad) ar dir ger Bryn Derw, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun (cynlluniau diwygiedig) – Dim gwrthwynebiad ar ran yr Aelodau.

C. Ymgynghoriad cyn cynllunio i adeiladu 38 o dai a byngalos ar dir ger yr Hen Reithordy, Llanbedr Dyffryn Clwyd, gan Williams Homes (Bala) Cyf a Grŵp Tai Pennaf (Pennaf Housing Group) – Mae'r Cyng. Nick Smith am ysgrifennu ar ran y Cyngor Cymuned i awgrymu y gellid adleoli'r man cyhoeddus a'i osod o flaen yr anheddau, a hefyd gofyn iddynt gyfrannu'r datblygiad fel ased Cymunedol

D. Cais Cynllunio 16/2018/0659 - Cais materion a gadwyd yn ôl ar dir yn Cae Glas, Lon Cae Glas. Derbyniwyd ateb gan Matischok & Ross (Gwasanaethau Pensaernïol) drwy Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych parthed y pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â gwaredu draeniad budr a materion mynediad, parcio a throi ar y safle. Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc ofyn i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych anfon copïau o ateb Matischok & Ross i breswylwyr Lôn Cae Glas, gan nad ymgynghorwyd a'r Cyng. Jackie Bird, sy'n gymydog.

11. GOHEBIAETH.

Cafwyd cadarnhad gan y Cyng. Rhian Jones fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio cau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd, a bod Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi datgan nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i gau'r Ysgol. O hyn ymlaen, byddant yn cyd-weithio ar gyfer dyfodol llewyrchus i'r Ysgol.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Adroddodd y Cadeirydd ar adroddiad canlynol Cyngor Sir Ddinbych gan y Cynghorydd Huw Williams: -

A: Trefnu gyda Phriffyrdd Sir Ddinbych i balmentydd ac ymylon y ffordd yn Llanbedr gael eu hysgubo, yn enwedig ar hyd ffordd Llandyrnog.

B. Gan na fydd yr Ysgol yn cau, mae am ymchwilio gyda Phriffyrdd Sir Ddinbych i weld os oes angen cael cyfyngiad cyflymder o 20 m.y.a. o flaen yr Ysgol.

C. Tai Fforddiadwy – gofyn i'r Datblygwr a'r Gymdeithas Dai os byddent yn fodlon cyfrannu at gael cyfleusterau chwarae ar y man agored.

13. MATER BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cerbyd wedi ei barcio ochr yn ochr â'r ffawydden goprog a'r fynwent – mae Neuadd y Pentref wedi rhoi caniatâd iddo barcio yno. Penderfynodd yr Aelodau ysgrifennu llythyr at berchennog y "Gate House" yn gofyn iddo barcio ei gar ar dir Neuadd y Pentref, gan eu bod wedi rhoi caniatâd iddo wneud hynny.

B. Cynllun Datblygu – Cynigodd y Cyng. Tim Baker y dylid sefydlu Pwyllgor Cyswllt yn y flwyddyn newydd, fyddai'n cynnwys pob grŵp o'r pentref sydd â diddordeb, er mwyn datblygu cynllun cydlynol i Ward Llanbedr ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

C. Cynnwys Cylchgrawn Link ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 3 Rhagfyr 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.